# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MAWRTH, 5 EBRILL 2016

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Elfed Williams

**SWYDDOGION:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Bob Taylor (Swyddog Gorfodi Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

Mewn ymateb i gais gan yr ymgeisydd, cynhaliwyd y gwrandawiad yn Saesneg.

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno. Nid oedd collfarnau perthnasol i'r maes trwyddedu wedi eu cynnwys ar ddatganiad yr ymgeisydd, ond tynnwyd sylw at wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Heddlu oedd yn berthnasol i'r cais. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r

cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu oedd gwrthod y cais oherwydd materion a ddatgelwyd gan yr Heddlu, ac yn unol â pholisi tacsi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' y Cyngor.

ch) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Cyfeiriodd yr ymgeisydd at lythyr a ysgrifennodd at Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn egluro ei sefyllfa.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol

- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- llythyr Cyngor Gwynedd 17 Rhagfyr 2012
- llythyr dyddiedig 4 Tachwedd, 2015 a gyflwynwyd i Brifysgol Betsi Cadwaladr Bwrdd Iechyd
- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd' - paragraffau penodol 7.1, 7.2 a 7.5 mewn perthynas â throseddau rhyw ac anwedduster.
- sylwadau llafar

e) Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Atgoffwyd wrth yr Is-bwyllgor, yn unol ag adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, ni ellid rhoi trwydded oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Cynghorwyd yr Is Bwyllgor ar ystyr "person addas a phriodol" a cyfeiriwyd at ddyfarniad *McCool v Cyngor Bwrdeistref Rushcliffe [1988] 3 All ER 889, lle cadarnhaodd yr Uchel Lys ystyr hynny: "... i'r rhai trwyddedig i yrru ... yn bersonau addas i wneud hynny, eu bod yn yrwyr diogel gyda chofnod da o yrru ynghyd a phrofiad digonol, yn sobr, yn feddyliol ac yn gorfforol iach, yn onest, ac nid yn bobl fyddai'n manteisio ar eu cyflogaeth i gam-drin neu ymosod ar deithwyr. "*

f) Wrth ystyried y digwyddiadau rhywiol ac anweddus, treisgar eu natur, <u>nid</u> oedd yr Is-bwyllgor wedi eu perswadio bod yr ymgeisydd yn berson addas ac na fyddai yn cymryd mantais o'i gyflogaeth. Amlygwyd pryder bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno cwyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am rannu manylion personol, cyfrinachol gyda'r Heddlu. Barn yr Is-bwyllgor, er budd gwarchod diogelwch y cyhoedd, bod y wybodaeth yma wedi ei rannu yn gywir ac o ganlyniad, bod amharodrwydd yr ymgeisydd i rannu'r wybodaeth gydag awdurdod priodol yn codi amheuaeth ynghylch ei onestrwydd. Yn ychwanegol, roedd y sylw bod manylion am gyflogaeth wedi ei gyflwyno ar y ffurflen gais, heb fod wedi gofyn am gyflogaeth neu gefnogaeth gan y cwmni, yn bwrw amheuaeth ar onestrwydd yr ymgeisydd.

ff) Derbyniwyd bod gan yr ymgeisydd Syndrom Asperger sy'n effeithio ar sgiliau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio a dychymyg. Fodd bynnag, prif flaenoriaeth yr Is-bwyllgor yw amddiffyn y cyhoedd gan sicrhau eu bod yn ddiogel yn nwylo gyrwyr tacsis Gwynedd.

g) O dan yr amgylchiadau nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn cydymffurfio â'r maen prawf "person addas a phriodol" . Gwrthodwyd y cais.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a ni chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr. Hysbysebwyd yr ymgeisydd i'w hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Rhoddodd yr Is Bwyllgor anogaeth i'r ymgeisydd fynychu cyrsiau hyfforddi priodol er mwyn uchafu ei obeithion am gyflogaeth i'r dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.15 y.h. a death i ben am 3.10 y.h.

**CADEIRYDD**